**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN**

**Pwyntiau Gweithredu**

| **Sesiwn Gwrandawiad 16 – Monitro a Gweithredu a Materion Cyffredinol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Mater** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| S16/PG1 | Cyffredinol | Adolygu dangosyddion y fframwaith i sicrhau eu bod nhw yn cynnwys pob un o'r materion sydd yn arbennig o bwysig i'r Cynllun. | Paratoi fframwaith monitro diwygiedig yn dilyn ymgynghoriad hefo Llywodraeth Cymru erbyn 23 Rhagfyr 2016. |
| S16/PG2 | Cyffredinol | Sicrhau bod pob 'targed polisi a'r lefelau trothwy' yn rhai meintiol ac yn ddigon clir fel bod darllenwyr yn deall eu perthnasedd. Os yn bosib / briodol dylent adeiladu ar ddangosyddion perfformiad cyfredol. | |
| S16/PG3 | Cyffredinol | Mae nifer o'r lefelau trothwy yn cynnwys cyfeiriad cyffredinol i gydymffurfiad efo'r fframwaith bolisi. Ystyried diwygio, lle y bo'n briodol, i gyfeirio at bolisïau penodol. | |
| S16/PG4 | Cyffredinol | Ble'n briodol, fe allai dangosyddion a thargedau cael eu geirio'n llai negyddol, gan bwysleisio effeithiau cadarnhaol polisïau cynllunio. | |
| S16/PG5 | SO1 – D1, D1B & D1C | Ystyried a ddylai'r dangosydd gyfeirio at ardaloedd penodol o fewn ardal y Cynllun. A ddylai'r wybodaeth a gesglir fod yn seiliedig ar gyngor cymuned/ward/anheddle? Mae angen ei fireinio i ddangos cysylltiad â pholisïau perthnasol sy'n hwyluso datblygiad sydd ei angen i gynnal cymunedau lleol. Ystyried cyfeirio at adroddiadau Pwyllgor fel tystiolaeth p'un a yw'r datblygiad yn cael effaith gadarnhaol, niwtral neu negyddol. A yw materion ieithyddol perthnasol yn cael ei gynnwys yn y dystiolaeth a gyflwynir gyda cheisiadau cynllunio perthnasol | |
| S16/PG6 | SO1 – D1A | Mae gormod o bwyslais ar 'ddatblygu gam wrth gam' yn enwedig gan fod y polisi datblygu cam wrth gam wedi cael ei ddileu fel Newid Materion sy'n Codi. | |

| Sesiwn Gwrandawiad 16 – Monitro a Gweithredu a Materion Cyffredinol | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Mater** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| S16/PG7 | SO2 – D10 | Dileu gan fod D8 yn ymdrin â'r mater. | |
| S16/PG8 | SO2 – D11A* | Cyfeirio at safonau FIT. Sicrhau cysondeb o ran y derminoleg a ddefnyddir, - mae'r testun ar hyn o bryd yn cyfeirio at 'Ddiogelu mannau agored' nid 'Mannau agored cyhoeddus'. | |
| S16/PG9 | SO2 – D11A | Dileu gan y bydd hyn yn cael ei gwmpasu gan system monitro chwarterol arall. | |
| S16/PG10 | SO3 – D4 | Ystyried os ydi natur ardal y Cynllun yn cyfiawnhau'r dangosydd am ffordd aml-foddol ac os nad ydi o ystyried os oes angen dangosydd amgen er mwyn plethu'n well â'r amcanion a'r polisi. | |
| S16/PG11 | SO3-D4A | Dileu'r cyfeiriad at 'datblygiad sydd yn anghynaladwy' a mireinio geiriad. | |
| S16/PG12 | SO3 – D7 | Mireinio geiriad i gyfeirio at ddiogelu defnydd y rheilffordd ar gyfer y dyfodol yn hytrach na ail-agor fel llinell rheilffordd. | |
| S16/PG13 | SO3 – D7A | Mireinio geiriad i gyfeirio at ddatblygiad a allai atal neu gyfyngu ar y defnydd o dir a ddiogelir. | |
| S16/PG14 | SO3 – D7B & D7C | Dileu'r cyfeiriad at ffordd osgoi Bontnewydd a ffordd gyswllt Llangefni gan nad ydynt yn hanfodol i wireddu'r Cynllun. Ystyried os dylai'r gwelliannau i'r A5025 gael ei fonitro yn y Cynllun. | |
| S16/PG15 | SO5 & SO8 | Grwpio'r amcanion gyda'i gilydd gan eu bod yn rhyng-gysylltiedig, ac fe fyddai'n hwyluso mireinio dangosyddion. | |
| S16/PG16 | SO6 – D12 | Ystyried a ddylai'r dangosydd gyfeirio'n benodol at 'ddatblygiad sy'n agored iawn i niwed '. | |

| Sesiwn Gwrandawiad 16 – Monitro a Gweithredu a Materion Cyffredinol | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Mater** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| S16/PG17 | SO6 - D12A | Gwneud yn glir bod y dangosydd hwn yn cyfeirio at bolisi newydd arfaethedig sy'n cael ei gynnig fel Newid Materion Sy'n Codi mewn ymateb i faterion a ystyriwyd yng ngwrandawiad sesiwn 12. | |
| S16/PG18 | SO6 – D13A | Mireinio geiriad –ai cyfeirio at adeiladau gwag a wneir? | |
| S16/PG19 | SO6 – D14A | Mireinio i adlewyrchu'r dystiolaeth newydd a gyflwynir i'r archwiliad. Ystyried darparu dangosyddion ar wahân i gwmpasu gwynt a solar yn unigol ac ystyried os oes angen targedau ar wahân ar gyfer yr ardaloedd awdurdod cynllunio gwahanol. | |
| S16/PG20 | SO7 – D15A | Mireinio i egluro yn union beth mae'r dangosydd yn ceisio'i gyflawni ac os allir ei fesur yn ystyrlon. | |
| S16/PG21 | SO8A – DX1 | A ddylid hefyd gynnwys dyddiad cwblhau'r prosiect fel dangosydd? A ddylid cynnwys y gwelliannau i'r A5025 o fewn y rhestr o ddatblygiadau cysylltiedig? | |
| S16/PG22 | SO8A – DX3 | Yn unol â chais DCO, ystyried a oes angen dangosydd i gysylltu â chychwyn y prosiect Ystyried cynnwys dangosydd i ymgorffori'r sgîl-fuddiannau yn gysylltiedig i'r prosiect. | |
| S16/PG23 | SO9 – D17 | Ystyried cynnwys dangosyddion ar wahân yn ymwneud gyda diogelu a dynodi safleoedd cyflogaeth. | |
| S16/PG24 | SO9 – D18A | Dileu | |
| S16/PG25 | SO9 – D18C | Dileu'r cyfeiriad at Wylfa Newydd yn y golofn targed polisi. | |
| S16/PG26 | SO10 – DC19 | Angen gwaith a mireinio pellach. Sicrhau bod y geiriad a gynhwysir yn y targed ar gyfer y polisi yn gyson â'r Polisi. | |

| Sesiwn Gwrandawiad 16 – Monitro a Gweithredu a Materion Cyffredinol | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Mater** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| S16/PG27 | SO11 – D20 | Dileu'r cyfeiriad at bolisïau yn y dangosydd a mireinio geiriad targed polisi i gyd-fynd â geiriad y Polisi. | |
| S16/PG28 | SO11 – D24 | Mireinio geiriad targed polisi i gyd-fynd gyda geiriad y Polisi. | |
| S16/PG29 | SO12 – D21 | Ystyried yr angen am ragor o feini prawf yn ymwneud a chanol trefi a phrif ardaloedd siopa. | |
| S16/PG30 | SO13 – D22 | Ystyried yr angen am ddull monitro positif o ran cynlluniau i ymestyn y tymor neu wella cyfleusterau. | |
| S16/PG31 | SO14 – D25, D25A, D26 | Heb anghofio’r neges yn y pwynt gweithredu cyntaf yn y gofrestr yma, mireinio er mwyn sicrhau aliniad gyda thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud gyda thaflwybr tai; ystyried cynnwys cyfeiriad at haenau gofodol o gyflenwad, gan sicrhau bod y fframwaith yn monitro’r materion allweddol. | |
| S16/PG32 | SO15 – D28 | Dileu'r cyfeiriad at ‘net’ ac ystyried mesur % yn ogystal â niferoedd. | |
| S16/PG33 | SO15 – D30 | Ystyried diwygio i gyfeirio at newidiadau mewn gwerthoedd gweddilliol ar draws ardaloedd pris tŷ oherwydd bod hyn yn rhoi elfen ofodol i’r gwaith monitro i hwyluso adnabod ymyriadau os oes angen. | |
| S16/PG34 | SO15 – no number | Ystyried defnyddio geiriad tebyg a ddefnyddir i fonitro wrth baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â ATMLI Gwynedd diwygiedig. | |
| S16/ PG35 | SO15 – D31 | Gynnwys cyfeiriad at Ystâd Ddiwydiannol Llandygai yn hytrach na Llandygai. Mireinio geiriad sy'n ymwneud gyda mesur nifer yr achosion o wersylloedd heb ganiatâd yn defnyddio safleoedd ar sail dros dro. Cwblhau'r targed polisi a’r lefel sbarduno yn ymwneud gyda’r AALISTh nesaf. | |

| Sesiwn Gwrandawiad 16 – Monitro a Gweithredu a Materion Cyffredinol | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Mater** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| S16/PG36 | SO15 – D32 | Mireinio geiriad gan nad yw’r polisi yn rhagnodol o ran lefel y dwysedd, h.y. gallai fod gofyniad ar gyfer hyblygrwydd wrth ystyried beth y gellir ei ddarparu ar y safle. Ystyried os oes budd mewn mesur dwysedd cyffredinol tai. | |
| S16/PG37 | SO16 – D35A – D39 | Mireinio i gyfeirio at effaith ar nodweddion/ werth arbennig safleoedd yn hytrach na cholli safleoedd. Disodli 'Swm' gyda ' nifer’. Ystyried geirio’r dangosydd yn well. | |
| S16/PG38 | SO17 – D42 | O gofio bod rhai safleoedd a restrir ym Mholisi 1 GWA 1 wedi'u lleoli ar safleoedd cyflogaeth a ddiogelir, mae angen ystyried y budd i fonitro cyflenwad o safleoedd posibl ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff. | |
| S16/PG39 | SO18 – D40 | Ail-ystyried y cyfeiriad at fanc tir 7 mlynedd o fewn y targed polisi er mwyn sicrhau bod y cyfnod yn un sy’n caniatáu digon o amser i gymryd camau cyn i’r banctir ostwng i 7 mlynedd. | |
| S16/PG40 | Polisi TRA 2 | Ystyried os ydi’r cyfeiriad at safonau parcio ym Mholisi TRA 2 yn cyd-fynd efo pholisi cynllunio cenedlaethol a gwneud newidiadau materion sy’n codi os oes angen gwneud hynny yn sgil hynny. | 7/12/16 |
| S16/PG41 | Nodyn Esboniadol – deddfwriaeth newydd | Ystyried cynnwys nodyn esboniadol i ddisgrifio'r berthynas rhwng y Cynllun a’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru. | 7/12/16 |
| S16/PG42 | Ffurf y Cynllun | Ystyried gwneud newidiadau i’r Cynllun:<br>(i) Golygu’r Cynllun er dileu'r cyfeiriad at 'Adneuo';<br>(ii) Gosod allan dyddiad diwedd y Cynllun;<br>(iii) Symleiddio rhannau a chael gwared â rhannau sy’n cynnwys gwybodaeth nad oes ei angen bellach;<br>(iv) Mireinio meini prawf i leihau ailadrodd; | Cyfnod Materion Newidiadau a Godwyd |

| Sesiwn Gwrandawiad 16 – Monitro a Gweithredu a Materion Cyffredinol | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Mater** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| | | (v) Sicrhau cysondeb o ran terminoleg, e.e. defnydd o ffin anheddle a ffin datblygu;<br>(vi) Symud ffiniau AGT ac Ardaloedd Diogelu Mwynau o'r Mapiau Cyfyngiadau i'r Mapiau Cynigion;<br>Cyflwyno Newidiadau Materion sy'n Codi i ymdrin gyda'r tasgau a ddisgrifir uchod. | |
| S16/PG43 | Nodyn Esboniadol | Paratoi nodyn esboniadol i fynd gyda'r fframwaith monitro diwygiedig i esbonio'r berthynas rhyngddo a'r Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. | 6/1/17 |
| S16/PG44 | Rhaglen waith | Paratoi rhaglen waith i ymdrin gydag unrhyw waith sy'n ymwneud â Phwyntiau Gweithredu nad ydynt wedi eu paratoi a'r amserlen ar gyfer cyhoeddi Atodlen Newidiadau Materion sy'n Codi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a Chynllun Cyfansawdd diwygiedig. | 6/1/17 |